

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd ar nos Fercher Ionawr 25^{ain} 2018 yn Neuadd Gymunedol Tycroes

Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

A Evans
B Evans
B Thomas
G Thomas
B D Davies
S A Evans
L Griffiths
T Higgins
M Nicholas
I Davies
S Lyle
C Davies
E Davies

Y Cadeirydd, y Cynghorydd M Nicholas, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

Hefyd yn bresennol - y Clerc, David Davies, a'r Swyddog Datblygu Cymunedol, Sarah McColl-Dorion

Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr C Higgins, A Blackley a M Davies.

Cofnod rhif 3 – Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant ynghylch y materion ar yr agenda.

Cofnod rhif 4 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ynghylch y materion canlynol:

Roedd y Cadeirydd wedi atgoffa'r aelodau am yr angen i fod yn ymwybodol o, ac i ddeall, Rheolau Sefydlog y Cyngor, Côd Ymddygiad Cynghorwyr ac i gyfeirio at, lle bo hynny'n briodol, Ganllaw y Cynghorydd Da. Dywedodd y Cadeirydd ei fod, yng nghwmni'r Cynghorydd B Evans, wedi mynychu gweithdy cynllunio a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cofnod rhif 5 – Cyfrifon Rhagamcanol Diwedd y Flwyddyn

Cafwyd trosolwg gan y Clerc o adroddiad a ddsbarthwyd eisoes yn nodi'r balansau diwedd blwyddyn rhagamcanol ar gyfrifon y Cyngor. Nodwyd bod y balans rhagamcanol ar y cyfrif wrth gefn cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yn -£78,485. Nodwyd y bydd y Cyngor yn ariannu'r diffyg hwn yn y tymor byr drwy ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn dynodedig, a nodwyd y bydd y diffyg hwn yn cael ei unioni gan daliad arian Adran 106 a fydd yn daladwy mewn dwy rhan oddiwrth Persimmon Homes. Mae yn unol â'r gyllideb a osodir gan y Cyngor am y flwyddyn gyffredol.

Cofnod rhif 6 – Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd / Dynodedig

Roedd y Clerc wedi darparu copi i'r Cyngor o adroddiad diwygiedig yn nodi'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn gyffredol. Nodwyd bod angen talu ambell eitem o wariant o'r gronfa hon yn uniongyrchol, gan gynnwys y gwelliannau ym Mharc Tycroes a ffioedd ymgynghorydd i'r Clwb Criced. Nodwyd hyn.

Cofnod rhif 7 – Prosiectau Cyfalaf 2017/18

Roedd yr aelodau wedi ystyried opsiynau i'w cynnwys yn y gyllideb brosiect o £20,000 am y flwyddyn nesaf. Cafodd y prosiectau canlynol eu hystyried:

Basgedi Crog yn y 3 cymuned
Plannu Blodau Gwyllt

Cytunwyd gohirio ystyriaeth o'r holl brosiectau eraill tan gyfarfod nesaf y Cyngor.

Cofnod rhif 8 – Cronfa Ad-dalu

Roedd yr aelodau wedi ystyried y swm y dylid gosod yn y gronfa ad-dalu er mwyn cynnal a chadw'r ardaloedd chwarae yn y dyfodol. Cytunwyd cyfrannu'r swm o £20,000 i'r gronfa ad-dalu ar gyfer y parciau. Cytunwyd neilltuo'r swm o £3,000 i'r gronfa ad-dalu a glusnodir ar gyfer cynnal a chadw'r MUGA.

Cofnod rhif 9 – Cyflogau Staff

Cafwyd dadansoddiad manwl gan y Clerc o'r cyflogau staff sy'n ragweledig am y flwyddyn ariannol nesaf; mae hyn yn cynnwys cyflogi'r Swyddog Datblygu Cymunedol am flwyddyn gyfan a'r codiadau i gyflogau'r staff a gytunwyd yn gyfamodol arnynt. Nodwyd nad yw'r Cyngor eto wedi cwblhau ei werththusiad o apwyntiad y Clerc, ac efallai y bydd hyn yn golygu newid yn y gyllideb hon.

Cofnod rhif 10 – Lefel y Cronfeydd wrth Gefn

Roedd yr aelodau wedi ystyried lefelau cronfeydd wrth gefn rhagamcanol y Cyngor yn seiliedig ar y penderfyniadau a wnaethpwyd wrth osod y gyllideb. Nododd y Cyngor bod posibilrwydd y byddai pwysedd ar lif arian y Cyngor yn ystod y flwyddyn ond, serch hynny, disgwylir taliad o £65,000 oddiwrth Persimmon yn ystod y flwyddyn nesaf, a bydd hynny o gymorth i unioni'r diffyg a gyllidebwyd yn y gronfa wrth gefn gyffredinol.

Cofnod rhif 11 – Atal y Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh

Cofnod rhif 12 – Cyllideb y Cyngor

Roedd aelodau'r Cyngor wedi ystyried gweddill elfennau'r gyllideb arfaethedig a chytunwyd ar gyllideb a seiliwyd ar yr elfennau canlynol am y flwyddyn ariannol:

**Cyllideb ar
gyfer 2018-
2019**

Gwariant Net a Ragwelir

Gweinyddu	28186
Costau Staff	59078
Treuliau'r Aelodau	2000
Amrywiol	1900
Lwfans y Cadeirydd	1600
Grantiau	20000
Yr Ystafell Ddarllen	3210
Mannau Agored	23200
Cloc	90
MUGA	900
Cynnal a Chadw'r Parciau	5000
Torri'r borfa yn y Parciau	8500
Darparu Parciau	20000
Torri'r borfa – Clwb Pêl-droed yr Hendy	1500
Clwb Criced yr Hendy	2350
Prosiectau Cyfalaf	20000
Cynnal a chadw'r Prosiectau Cyfalaf	500
Darparu'r Prosiectau Cyfalaf	20000
Cyfanswm	218014

Cynnydd yn nhreuliau'r aelodau 1000

Cyfanswm y Gwariant £219,014

Incwm a Ragwelir

Ad-daliad o arian Adran 106 Parc yr Hendy £65,000

Incwm Sul y Cofio £270

Incwm Arall £50

Llog y Banc £100

Cyfanswm Incwm £65,420

Cyfanswm y praesept £153,594

Er mwyn unioni cronfa wrth gefn y Cyngor, ystyriwyd y dylid cynhyrchu swm o £113.00 i ddarparu cronfa gyffredinol ddigonol.

Praesept sydd ei angen i unioni'r gronfa wrth gefn £266,594.00

Y praesept sydd ei angen yn seiliedig ar luosydd eiddo
Band D yw 2182.84 £122.13

Praesept Presennol £205,000

£94.66

Praesept a gytunir arno £211,150

Cyferwerth Band D £96.73

Cofnod rhif 13 – Praesept

Cynigiwyd gan y Cynghorydd E Davies, ac eiliwyd gan y Cynghorydd I Davies, bod y Cyngor yn cytuno ar godiad o 3% yn y Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018 – 2019. Roedd y Cynghorydd T Higgions wedi gofyn am bleidlais a gofnodwyd.

Yn pleidleisio dros y cynnig:

Y Cynghorwyr B Evans, A Evans, S Evans, B Thomas, E Davies, S Lyle, I Davies a G Thomas.

Yn pleidleisio yn erbyn y cynnig:

Y Cynghorwyr T Higgins, L Griffiths, C Davies a B Davies.

Gosodwyd praesept o £211,150 am y flwyddyn ariannol 2018 -19, a fydd yn golygu codi Treth y Cyngor o £96.73 am eiddo yn Band D. Mae hyn yn golygu cynnydd o £2.07 am y flwyddyn.

Cofnod rhif 14 – Cytundeb Benthg Arian

Cyflwynodd y Clerc i'r aelodau gytundeb benthg arian drafft yn ymwneud â benthgiad rhwng y Cyngor ac aelod o staff. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi gofyn cyngor Archwilydd Mewnol y Cyngor cyn cytuno i fwrw ymlaen â'r mater hwn. Wedi trafodaeth fanwl ynghlyn â'r mater, **penderfynwyd** cytuno ar delerau'r benthgiad ac ar ddogfennaeth y cytundeb benthg.

Cofnod rhif 15 – Archwiliad Mewnol

Roedd yr aelodau wedi ystyried math ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan Archwilydd Mewnol y Cyngor. **Penderfynwyd** bod aelodau'r Cyngor yn ystyried bod cwmpas y gwasanaeth a ddarperir yn addas at anghenion y Cyngor a bod y Cyngor yn fodlon â'r gwasanaeth a gynigir gan yr Archwilydd Mewnol. O ganlyniad, **penderfynwyd** ail-apwyntio'r Archwilydd Mewnol ar gyfer yr archwiliad nesaf.

Cofnod rhif 16 – Clwb Criced yr Hendy

Bu trafodaeth gyffredinol ynghylch yr ymgynghoriad arfaethedig gyda'r cyhoedd ynghlyn â chynlluniau terfynol y prosiect hwn. **Penderfynwyd** darparu cyfleoedd ychwanegol i'r cyhoedd i weld y cynlluniau terfynol ar gyfer y prosiect, a bod aelodau'r Cyngor wrth law i drafod materion gyda phreswylwyr lleol.

Daeth busnes y Cyngor i ben am 10.40 yh

**Llofnod Dyddiad
Cadeirydd**